Busnes Cymru | Business Wales

# Y RHAGLEN CYFLYMU TWF

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

# A allai eich busnes chi elwa ar gyngor a chymorth arbenigol i ddatgloi'r gwir botensial sydd ganddo i dyfu?

A chithau'n arwain busnes yng Nghymru, byddwch chi'n gwybod bod yr rhaglen hon yn addas ar eich cyfer:

- os ydych chi a'ch tîm yn gwbl ymrwymedig i dyfu'ch busnes
- os oes angen gwasanaethau ymgynghori a chyngor arbenigol ar eich busnes i'ch helpu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â thyfu'n gyflym
- os ydych chi'n sylweddoli y gallai fod angen ichi wella eich sgiliau chi a'ch tîm er mwyn tyfu'r busnes yn llwyddiannus
- os oes angen cyngor proffesiynol arnoch am faterion pwysig fel cael gafael ar gyllid, datblygu'ch systemau, ennill cwsmeriaid sy'n creu mwy o elw ichi a datblygu tîm llwyddiannus
- os oes angen i'ch busnes fod yn rhan o'r ecosystem cymorth busnes sy'n hyrwyddo twf uchel er mwyn iddo fedru ehangu'n rhyngwladol, datblygu arlwy arloesol ar gyfer cwsmeriaid a dod o hyd i'r cyllid i hyrwyddo'r twf hwnnw.

**Canu cloch?** Yna, mae'r Rhaglen Cyflymu Twf sy'n cael ei chynnig gan Busnes Cymru yn berffaith ar eich cyfer. Ond nid yw'n addas i bawb. Dim ond i ganran fach o fusnesau yma yng Nghymru sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd y bydd y gwasanaeth personol hynod arbenigol hwn ar gael.

**Delweddau:**
Tudalen 1 : Contis Ice Cream, Lampeter
Clawr Cefn: Laser Wire Solutions, Pontypridd

**03000 6 03000**
**businesswales.gov.wales**

# A yw'ch busnes chi yn gymwys i ymuno â Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru?




Er mwyn cael eich derbyn ar y rhaglen, rhaid i'ch busnes fod yng Nghymru, dylech fod yn cyflogi llai na 250 o weithwyr a rhaid ichi fedru dangos bod gennych y potensial i:

- gynyddu'ch trosiant o leiaf 20% o'r naill flwyddyn i'r llall neu, yn achos cwmnïau iau, sicrhau bod trosiant yn cynyddu o leiaf £2 filiwn dros dair blynedd
- denu cyllid allanol er mwyn helpu i hyrwyddo'r twf hwnnw
- rhaid i fusnesau newydd ymrwymo i sicrhau trosiant o gyfanswm o £2 filiwn dros dair blynedd unwaith y byddant yn dechrau masnachu
- screu o leiaf 10 swydd newydd mewn 3 blynedd, a rhaid i gyfran ohonynt fod yn talu cyflog uwch na chyfartaledd Cymru
- dechrau neu feithrin eich gallu i ddatgloi cyfleoedd pwysig mewn marchnadoedd rhyngwladol.

Mae'r rhaglen hon yn cael ei thargedu'n benodol at gwmnïau mwyaf uchelgeisiol Cymru sy'n gwbl ymrwymedig i dyfu eu busnesau'n gyflym ac i greu mwy o ffyniant yn y rhanbarth.

# Sut mae Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru yn gweithio?

Er mwyn diwallu gofynion unigol eich busnes twf uchel, mae'r Rhaglen yn cael ei theilwra'n benodol i fynd i'r afael â'r ffactorau penodol sy'n cyfyngu ar eich twf, gan wneud hynny drwy Reolwr Perthynas sy'n cael ei neilltuo i weithio gyda chi. Gall y rhaglen eich helpu i oresgyn y rhwystrau hyn mewn nifer o ffyrdd.

## Hyfforddi ac Ymgynghori Un i Un

Gan dîm o arbenigwyr sydd â phrofiad o sicrhau twf uchel. Mae'r pecynnau gwaith yn hoelio sylw ar yr heriau twf penodol sy'n wynebu'ch busnes.

## Gwasanaethau cynghori proffesiynol

Cyngor cyfreithiol a chyngor ar eiddo deallusol, ar weithgynhyrchu darbodus, cyllid corfforaethol, TG, adnoddau dynol, marchnate etc. Cymorth ymarferol wyneb yn wyneb i oresgyn heriau tactegol o ran twf.

## Datblygu rheolwyr

Drwy raglen wedi'i theilwra o ddosbarthiadau meistr, naill ai drwy gynnig hyfforddiant i nifer oddi ar y safle neu i ychydig ar y safle, er mwyn gwella'ch sgiliau chi a'ch tîm.

## Y cyfle i fanteisio ar yr ystod lawn o gymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru

Sicrhewch eich bod yn elwa ar bopeth sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid a mentrau cymorth cysylltiedig fel rhaglenni datblygu arweinwyr.

## Cynigion arbennig

Mae'n rhwydwaith o Bartneriaid Aur yn cynnig disgownt i "Aelodau yn unig" ar wasanaethau a fydd yn eich helpu i dyfu'n gynt, i dyfu'n gryfach ac am gyfnod hirach.

## Bod yn aelod o gymuned

Ymunwch ag entrepreneuriaid uchelgeisiol o'r un anian â chi er mwyn manteisio ar gyfleoedd i ddysgu oddi wrth gymheiriaid, i rwydweithio, i fasnachu ac i fynd ar deithiau dysgu i MIT a Silicon Valley.

# Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru yw'r un y mae busnesau gwirioneddol uchelgeisiol o Gymru yn troi ati er mwyn tyfu

## Faint mae'r Rhaglen yn ei gostio?

Nid oes cost i'ch busnes; mae'r rhaglen yn cael ei hariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

> "Ymunon ni â'r rhaglen er mwyn cael cymorth i oresgyn yr heriau roedden ni'n eu hwynebu wrth fynd ati i dyfu'r busnes yn gyflym ac i wireddu'n gwir botensial i dyfu. Rydyn ni'n ystyried ein hunain yn fusnes gwirioneddol byd-eang ac mae'r cymorth rydyn ni wedi'i gael wedi'n helpu i ganolbwyntio ar dyfu cwmni rhyngwladol. Mae Rhaglen Cyflymu Twf Busnews Cymru wedi bod yn gaffaeliad anhygoel inni oherwydd ei bod mor hyblyg ac yn ymateb i'n hanghenion wrth inni ddatblygu."
>
> **Paul Taylor, Prif Swyddog Gweithredol**
> Laser Wire Solutions

Mae Laser Wire Solutions yn un o gleientiaid Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru ac yn gwmni sydd wedi ennill nifer o wobrau Twf Cyflym, gan dyfu dros 700%.




WG36461 / © Hawlfraint y Goron 2019
OGL